

Eiriolaeth a Mynediad
at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth
dan Ddeddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014
Prosiect Cyngor Myfyrwyr
MencapWise

Darparwyd yr arweinlyfr hwn gan fyfyrwyr o Ysgol y Gyfraith
a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd, gyda goruchwyliaeth gan
Jason Tucker (Darllenydd).

Rhif elusen gofrestredig 222377 (Cymru a Lloegr)

EIRIOLAETH A MYNEDIAD AT WYBODAETH DAN DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A
LLESIANT (CYMRU) 2014-MAI 2017

Eiriolaeth a Mynediad at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau arbennig ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus a chyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chefnogaeth. Bydd yr arweinydd hwn yn egluro pryd y bydd raid i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch gwasanaethau gofal a chefnogaeth a, hefyd, wasanaethau eirioli i gefnogi pobl yn y broses o wneud penderfyniadau.

Darpariaethau allweddol y Ddeddf yw:

- Rhan 17 sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chefnogaeth ar gael.
- Rhan 181 sy'n datgan efallai y bydd gofyn i awdurdodau lleol drefnu bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i bobl sydd ag angen gofal a chefnogaeth.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o Godau Ymarfer sy'n gosod y gofynion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn mewn perthynas ag agweddau allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r [Côd Ymarfer Rhan 2 \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#) yn mynegi'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chynghor mewn perthynas â gofal a chefnogaeth, a chymorth i gael mynediad at wasanaethau perthnasol ar gyfer pobl. Mae [Côd Ymarfer Rhan 10 \(Eiriolaeth\)](#) yn mynnu bod awdurdodau lleol yn:

- sicrhau bod gwasanaethau eirioli ar gael i alluogi pobl i gyfrannu tuag at wneud penderfyniadau gan awdurdodau lleol; ac
- mewn rhai amgylchiadau, ddarparu eiriolwr proffesiynol annibynnol.

Rhennir yr Arweinyfr yn dair Rhan:

Rhan 1 – Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Mae'r rhan hon yn egluro'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau sydd gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Mae'n egluro beth a olygir wrth wybodaeth, cyngor a chymorth ac yn egluro sut y dylai'r gwasanaeth gael ei gyflwyno. Ceir gwybodaeth hefyd am y taliadau y gellir eu codi am wasanaethau a sut i fwrw ymlaen â chwyn ynghylch y gwasanaethau a ddarperir.

Rhan 2 – Gwasanaethau Eirioli

Mae'r rhan hon yn egluro'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau sydd gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae'n egluro beth mae eiriolwyr yn ei wneud a'r gwahanol fathau o eiriolaeth sy'n bodoli. Mae hefyd yn egluro pwy all weithredu fel eiriolwr a sut i gwyno am wasanaethau eirioli os nad ydych chi'n cytuno â'r awdurdod lleol ynghylch y math o gefnogaeth sydd ei angen. Mae gwybodaeth hefyd am wasanaethau eirioli ychwanegol y mae'n rhaid eu darparu ar gyfer plant y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt a rhai sydd dan ddeddfwriaeth ar wahân i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rhan 3 – Adnoddau Ychwanegol

Mae'r Rhan hon yn cynnwys cysylltau i wefannau allanol sydd â gwybodaeth ddefnyddiol bellach ynglŷn â'r meysydd yr ymdrinnir â hwy yn yr arweinyfr hwn, gan gynnwys cysylltau at fudiadau sy'n darparu gwasanaethau eirioli yng Nghymru. Ceir hefyd **Enghreifftiau o lythyrau cwyno** a allai fod yn ddefnyddiol i chi os ydych chi'n cael trafferth i gael mynediad at wasanaethau eirioli.

(Ceir mwy o wybodaeth am wasanaethau gofal a chefnogaeth yn gyffredinol mewn arweinyfr ar wahân sy'n ymwneud â [Cael Mynediad at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd](#).)

RHAN 1 – GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH

Mae Rhan 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael sy'n rhoi'r canlynol i bobl:

- gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â gofal a chefnogaeth; a
- chymorth i gael mynediad at ofal a chefnogaeth.

Mae'r ddyletswydd yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau fod ar gael i'r holl bobl yn ardal yr awdurdod lleol, nid y rhai sydd angen gofal a chefnogaeth ar unwaith yn unig.

Mae'r wybodaeth yn y Rhan hon o'r arweinlyfr yn ymdrin â:

- 1.1 Beth a olygir wrth wybodaeth, cyngor a chymorth?**
- 1.2 Pa wasanaethau y mae'n rhaid i wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth eu darparu?**
- 1.3 Sut y bydd gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael ei gyflwyno?**
- 1.4 Codi tâl am wybodaeth, cyngor a chymorth**
- 1.5 Cwynion am wybodaeth, cyngor a chymorth**

1.1 Beth a olygir wrth wybodaeth, cyngor a chymorth?

Mae'r Côd Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) (pennod 5) yn cynnwys eglurhad o'r hyn a olygir wrth wybodaeth, cyngor a chymorth:

- **Gwybodaeth:** data safonol sy'n darparu cefnogaeth i berson i'w helpu i wneud dewis gwybodus ynglŷn â'u llesiant.
- **Cyngor:** gweithio gyda pherson i edrych ar y dewisiadau sydd ar gael
- **Cymorth:** mynd ati i gael mynediad at wasanaethau gofal a/neu gefnogaeth.

1.2 Pa wasanaethau y mae'n rhaid i wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth eu darparu?

Mae'r Côd Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) (paragraff 39) yn datgan bod yn *“rhaid i awdurdodau lleol roi system ar waith sy'n darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl i'w helpu i reoli eu bywydau o ddydd i ddydd a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt”*. Mynna Rhan 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod yn rhaid i'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth gynnwys, o leiaf, gyhoeddiadau am wybodaeth a chyngor ynghylch:

- y ffordd y mae'r system gofal a chefnogaeth yn gweithio;
- y mathau o ofal a chefnogaeth sydd ar gael;
- sut i gael mynediad at wasanaethau gofal a chefnogaeth; a
- sut i godi pryderon ynghylch llesiant person arall y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chefnogaeth.

Mynna Rhan 17 hefyd fod y gwasanaeth yn “*ddigonol i alluogi person i wneud cynlluniau*” ac yn cael ei gyflwyno “*mewn modd sy’n hawdd i’r person hwnnw ei ddefnyddio*”. Yn ogystal, noda’r Côd Ymarfer Rhan 2 (paragraff 338) bod y gwasanaeth hefyd yn “*adnodd sydd ar gael i ymarferwyr, pa un a ydynt yn gweithio i’r awdurdod lleol neu i sefydliad/asiantaeth arall*”.

1.3 Sut y bydd gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael ei gyflwyno?

Fel arfer, y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth fydd y cyswllt cyntaf y bydd pobl yn ei gael â’r system gofal cymdeithasol. Er bod gan awdurdodau lleol ryddid i weithredu o ran y ffyrdd y mae gwasanaethau’n cael eu cyflwyno, mae’r Côd Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) (pennod 5) yn gosod gofynion craidd Llywodraeth Cymru, sy’n cynnwys:

- Mae’n rhaid i bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth deimlo eu bod wedi cyrraedd rhywun sydd, yn anad dim, yn gwrando arnynt (*paragraff 303*).
- Mae’n rhaid i’r gwasanaeth gael ei hysbysebu mewn modd sy’n caniatáu i’r rhai o un pen o’r cymunedau amrywiaethol i’r llall wybod beth y gall y gwasanaeth ei gynnig a deall sut i gael mynediad ato (*paragraff 321*).
- Mae’n rhaid i bobl ei chael hi’n hawdd cael mynediad at y gwasanaeth a’u trin ag urddas a pharch bob amser gan staff sydd wedi’u hyfforddi’n dda i gyflwyno’r gwasanaeth (*paragraff 322*).
- Mae’n rhaid i bobl gael cyfle i egluro beth sy’n bwysig iddynt, i edrych pa ddewisiadau sydd ar gael a dod o hyd i’r help y maent yn teimlo sy’n iawn ar eu cyfer i gyrraedd eu canlyniadau personol (*paragraff 303*).
- Mae’n angenrheidiol bod pob unigolyn, beth bynnag yw eu hanghenion hygyrchedd, yn deall beth sydd ar gael iddynt ac yn cymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sy’n bwysig iddynt ac ynghylch sut i gyrraedd eu canlyniadau personol (*paragraff 324*).
- Mae’n rhaid i’r gwasanaeth fod yn hawdd cael mynediad ato i bawb mewn amrywiaeth o ffyrdd fel bo gan bobl ddewis ynglŷn â’r ffordd y maent yn defnyddio’r gwasanaeth a pha ddiwyg sy’n iawn ar eu cyfer (*paragraff 316*).
- Mae’n rhaid i’r gwasanaeth fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg (*paragraff 319*).
- Mae’n rhaid i’r awdurdod lleol sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn hawdd ei ddeall mewn amrywiaeth o ddiwygiau, gan gynnwys Hawdd ei Ddeall a deunydd sy’n arbennig ar gyfer plant a phobl ifainc a phobl eraill sydd angen cefnogaeth ychwanegol (*paragraff 320*).
- Mae’n rhaid i’r gwasanaeth fod yn hygyrch ar gyfer unigolion sydd mewn carchar, mewn llety cadw ieuenctid neu rai sydd ar fechnïaeth (*paragraff 370*).

Mae Côd Rhan 2 hefyd yn egluro beth yw’r gwahanol ddisgwyliadau sy’n berthnasol o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth. Pan fydd rhywun yn gofyn am *wybodaeth*, dylai’r

gwasanaeth un ai ddarparu'r wybodaeth neu gyfeirio'r ymholwr at wasanaeth yn ei le fydd yn gallu darparu'r wybodaeth sydd ei hangen. Un o amcanion allweddol darpariaeth gofal cymdeithasol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw sicrhau bod gwasanaethau ataliol ar gael i rwystro anghenion gofal pobl rhag gwaethygu. Felly, os yw'n ymddangos y byddai'r ymholwr yn manteisio o wasanaethau ataliol, yna mae'n rhaid darparu'r wybodaeth am y gwasanaethau perthnasol.

Pan fydd angen *cyngor*, bydd angen ar i'r gweithiwr proffesiynol sy'n darparu'r cyngor ganfod beth yw'r canlyniadau personol y mae'r ymholwr yn gobeithio eu cyrraedd a darparu cyngor yn ymwneud â'r dewisiadau sy'n bodoli er mwyn cyrraedd y canlyniadau hynny. Noda'r Côd y dylai cyngor gael ei ddarparu yn gydgynrychiadol, sy'n golygu bod yn rhaid i'r gweithiwr proffesiynol sy'n darparu'r cyngor gydnabod bod gan yr ymholwr (a'i deulu/gofalwr) gyfraniad cyfartal i'w wneud i'r broses o weld beth yw ei ganlyniadau personol a beth yw'r ffordd orau i gyrraedd y canlyniadau hynny.

Fel arfer mae *cymorth* yn dilyn darpariaeth yr wybodaeth a'r cyngor ac yn golygu bod person arall yn mynd ati i roi cymorth i'r ymholwr i gael mynediad at ofal a/neu gefnogaeth.

Noda Côd Rhan 2 bod unrhyw unigolyn sydd angen cyngor a/neu gymorth yn debygol o fod angen cael asesu ei anghenion gofal a chefnogaeth. Er bod paragraff 312 yn cydnabod y bydd yr "*asesiad yn amrywio o unigolyn i unigolyn o ran yr hyn sy'n ofynnol*", mae'n rhaid i unrhyw asesiad gydymffurfio ag egwyddorion asesu'r Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol. (Cynhwysir gwybodaeth am y ffordd o fynd ati wrth asesu anghenion gofal a chefnogaeth mewn arweinyfr ar wahân sy'n ymwneud â [Cael Mynediad at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd](#).)

Noda Côd Rhan 2 (paragraff 310) hefyd, os bydd ymholwr sy'n mynd at y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymddangos bod ganddo unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu neu amddiffyn, yna mae'n rhaid i'r gwasanaeth fod â phrotocol yn ei le, y mae'n rhaid i staff fod wedi cael hyfforddiant llawn ar ei gyfer i'w roi mewn grym. Yn yr un modd, noda paragraff 381, hyd yn oed os nad yw'r gwasanaeth yn wasanaeth argyfwng, os bydd ymholwr angen ymateb brys, dylai'r gwasanaeth fod â phrotocoliau yn eu lle i sicrhau bod yr ymholwr yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth cywir.

1.4 Codi tâl am wybodaeth, cyngor a chymorth

Mae'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) 2015 (rheoliad 16) yn caniatáu awdurdodau lleol i godi tâl am gymorth a ddarperir yn unol â rhan 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw dâl fod ar gyfradd safonol, a olyga na all fod yn fwy na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth y mae'n gysylltiedig ag o. Noda'r Côd Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) (paragraff 333) hefyd y dylai "*awdurdodau lleol osgoi sefyllfa lle mae'r ffi cyfradd safonol y maent yn ei gosod yn atal pobl rhag derbyn cymorth*". Yn ogystal, cadarnha'r Côd Ymarfer

Rhan 2 (paragraff 334) na all awdurdodau lleol godi tâl am gymorth a ddarperir ar gyfer plant.

Mae'r ffaith nad oes darpariaeth wedi'i wneud ar gyfer gadael i awdurdodau lleol godi tâl un ai am wybodaeth neu gyngor yn awgrymu bod yn rhaid i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu yn rhad ac am ddim bob amser.

1.5 Cwynion ynghylch gwybodaeth, cyngor a chymorth

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gael dull o wneud cwynion. Mae hawl gan unrhyw berson sy'n anhapus â'r ffordd y mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael ei weithredu wneud cwyn a dylai'r gwasanaeth ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd o gael mynediad at y dull o wneud cwynion.

(Mae gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd y dylai'r dull o wneud cwynion gael ei weithredu yn cael ei gynnwys yn yr arweinlyfr ar wahân sy'n ymwneud â [Cael Mynediad at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd](#).)

RHAN 2 – GWASANAETHAU EIRIOLI

Ethos Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw bod yn rhaid i unigolion fedru cyfranogi'n llawn o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a dylent fod yn bartneriaid cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol. Bydd ar rai pobl angen cefnogaeth i gyflawni hyn ac mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaethau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod amrediad o wasanaethau eirioli ar gael.

Mae'r wybodaeth yn y rhan hon o'r arweinylfr yn cynnwys:

- 2.1 Beth yw eiriolaeth a Beth y mae eiriolwyr yn ei wneud?**
- 2.2 Pam y mae eiriolaeth yn bwysig?**
- 2.3 Pa bryd y gall unigolion fod ag angen gwasanaethau eirioli?**
- 2.4 Dewis gwasanaeth eirioli**
- 2.5 Pa bryd fydd hi'n anaddas i rywun fod yn eiriolwr?**
- 2.6 Codi tâl am wasanaethau eirioli**
- 2.7 Gwneud cwyn am wasanaethau eirioli**
- 2.8 Gwasanaethau eirioli ychwanegol ar gyfer plant sydd â hawl**
- 2.9 Gwasanaethau eirioli statudol eraill**

2.1 Beth yw eiriolaeth a Beth y mae eiriolwyr yn ei wneud?

Eiriolaeth yw mynd ati i helpu
pobl i ddweud yr hyn sydd arnyn
nhw eisiau, diogelu eu hawliau,
cynrychioli eu lles a chael gafael
ar y gwasanaethau sydd eu hangen
arnyn nhw.

(‘Action for Advocacy’, 2002)

Mae eiriolaeth yn cefnogi pobl i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau gwybodus.

Mae eiriolwyr yn gweithio gyda phobl i sicrhau bod eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn. Gall eiriolwr helpu rhywun i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau neu gall fynd gyda rhywun i gyfarfod a darparu cefnogaeth. Gall eiriolwr ysgrifennu llythyr ar ran person neu siarad ar ran rhywun mewn sefyllfaoedd ble nad yw'r person yn teimlo y gall siarad drosto'i hun. Yn anad dim, gall unigolyn fanteisio o gefnogaeth gan eiriolwr os yw'n:

- ansicr am ei ddewisiadau a'i hawliau;
- ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth neu ddeall gwybodaeth;
- cael trafferth i gysylltu â phobl berthnasol a gwneud trefniadau ar ei ben ei hun;
- gweld cyfarfodydd a thrafodaethau yn ddryslyd ac yn drech nag ef;
- cael trafferth i fynegi ei farn.

Ond ni fydd eiriolwr yn:

- rhoi ei farn bersonol ei hun;
- gwneud penderfyniadau dros rywun; neu
- beirniadu'r person y mae'n ei gefnogi.

2.2. Pam y mae eiriolaeth yn bwysig?

Mynna Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod yn rhaid i awdurdod lleol, wrth weithio gyda rhywun a all fod ag anghenion gofal a chefnogaeth, ganfod beth yw barn, dymuniadau a theimladau'r person a theimlo parch tuag atynt. Golyga hyn fod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cefnogaeth i alluogi person i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arno os yw gallu'r person i gyfathrebu yn gyfyngedig am ryw reswm. Felly, mae eiriolaeth yn helpu i sicrhau bod pobl yn bartneriaid gweithredol ym mhrosesau allweddol eu gofal a'u cefnogaeth.

Noda Côd Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 7) bod eiriolaeth yn bwysig gan ei fod:

- yn diogelu unigolion sy'n hawdd eu niweidio ac y mae pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu unigolion y mae gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd eu gwasanaethu.
- yn siarad ar ran unigolion nad ydynt yn gallu siarad drostynt eu hunain.
- yn awdurdodi unigolion trwy eu galluogi i fynegi eu hanghenion eu hunain a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- yn galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth, deall eu dewisiadau a mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau.
- yn rhoi cefnogaeth weithredol i unigolion wneud dewisiadau gwybodus.

Noda pennod 10 y Côd y gall eiriolaeth gael effaith ataliol trwy sicrhau mynediad buan at ofal a chefnogaeth, a thrwy hynny rwystro iddo waethygu'n angen difrifol.

2.3 Pa bryd y gall unigolion fod ag angen gwasanaethau eirioli?

Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ffocws gwasanaethau eirioli yw darparu cymorth mewn perthynas â chael gofal a chefnogaeth. Mae'r Côd Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 12) yn datgan bod yn **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried pa un a yw unigolyn yn debygol o gael anawsterau wrth gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arno i hybu ei lesiant. Os yw person yn cael anawsterau yna mae'n debygol bod arno angen cefnogaeth eirioli.

	A oes arna i angen cefnogaeth gan eiriolwr?
Meddylwch am y datganiadau canlynol:	
❖ Rydw i'n gwybod ac yn deall pa ofal, cefnogaeth a chyfleoedd sydd ar gael i mi. ❖ Gallaf gael yr help sydd ei angen arna i, pan fydd ei angen arna i, yn y ffordd y mae	

arna i ei angen.

- ❖ Mae fy hawliau'n cael eu parchu.
- ❖ Mae gennyf lais a rheolaeth.
- ❖ Rydw i'n cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd.
- ❖ Mae fy amgylchiadau personol yn cael eu hystyried.
- ❖ Gallaf siarad drosof i fy hun neu gael rhywun sy'n gallu gwneud hynny ar fy rhan.
- ❖ Rydw i'n gallu cael gofal trwy gyfrwng y Gymraeg os oes arna i angen hynny.

Os ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r datganiadau hyn, yna mae'n debyg y byddech chi'n elwa o wasanaethau eirioli.

Er y gellir bod angen gwasanaethau eirioli ar unrhyw adeg, y mae camau allweddol yn y broses o gael mynediad at ofal a chefnogaeth pryd y gall yr angen am eiriolwr fod yn uwch. Y camau allweddol a nodir yn y Côd Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) yw:

A. Cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth: Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wybodaeth a chyngor. Mynega'r Côt bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod *“y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor yn hawdd cael gafael arno a bod y cymorth priodol ar gael”*. Mae'n rhaid i staff sy'n darparu gwybodaeth a chyngor fod â'r gallu i sylwi pa unigolion sydd angen eiriolwr i'w helpu i ddeall a/neu gadw mewn cof wybodaeth berthnasol ac mae'n rhaid iddynt gyfeirio unigolion at wasanaethau eirioli pan fo'n briodol. Noda Pennod 16 y Côt bod yn rhaid i wybodaeth ynghylch gwasanaethau eirioli fod ar gael *“mewn diwygiau priodol a hawdd eu deall a'u bod yn ymgyswngedig at y grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd”*.

B. Asesu anghenion: Mae gan bob person sy'n cael ei asesu ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogaeth yr hawl i gyfranogi'n llawn o'r broses. Dywed y Côt fod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw rwystrau rhag cyfranogi yn cael eu goresgyn a bod yn rhaid i unigolion fedru pwysu a mesur gwybodaeth, mynegi eu hoffterau a dewis rhwng dewisiadau.

C. Cynllunio a chyfarfodydd adolygu: Mae'r hawl i gyfranogi'n llawn o'r broses yn cynnwys cael cyfrannu at gynnwys cynlluniau gofal a chefnogaeth ac unrhyw adolygiad o'r cynlluniau hynny. Unwaith eto, mynega'r Côt fod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod unigolion yn medru rhoi eu barn drosodd a gwneud eu blaenoriaethau'n glir.

Yn ogystal, noda Pennod 14 o'r Côt y bydd angen cefnogaeth gan eiriolwr os oes **materion diogelu** ac os yw'r unigolyn mewn perygl o niwed neu esgeulustod. Pan fydd ymchwiliad diogelu yn cychwyn, o ran un ai oedolyn neu blentyn, bydd yn rhaid *“penodi eiriolwr cyn gynted ag y bo modd”*.

Pwysleisia Pennod 16 y Côt y gall yr angen am gefnogaeth eiriolwr gael ei wneud yn fwy gan breswylfa unigolyn, gyda phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal neu letyau preswyl eraill, tai gwarchod a chynlluniau byw ar y cyd yn debygol o fod â mwy o angen. Noda Pennod 18, os oes materion iechyd meddwl, ac efallai y bydd angen awdurdodi amddifadu o ryddid, dylai gwasanaethau eirioli fod ar gael “*o'r cyfle cyntaf posibl*”.

2.4 Dewis gwasanaeth eirioli

Mynna Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gweithio mewn partneriaeth i asesu anghenion eu poblogaeth ac yna sicrhau bod amrediad priodol o wasanaethau eirioli ar gael. Nid yw'r Ddeddf yn nodi'r math o wasanaethau eirioli y mae'n rhaid eu darparu ond mae'r Côt Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 8) yn rhestru amrediad o wahanol fathau o eiriolaeth i awdurdodau lleol eu hystyried.

	Y gwahanol fathau o eiriolaeth
❖	Hunaneiriolaeth - pan fydd unigolion yn cynrychioli eu hunain ac yn siarad drostynt eu hunain
❖	Eiriolaeth anffurfiol – pan fydd teulu, ffrindiau neu gymdogion yn cefnogi unigolyn i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, a allai gynnwys siarad ar eu rhan
❖	Eiriolaeth gyfunol – ble mae grwpiau o unigolion, sydd â phrofiadau yn gyffredin, yn cael yr hawl i leisio eu barn a dylanwadu ar newid a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol
❖	Eiriolaeth cymheiriaid – un unigolyn yn gweithredu fel eiriolwr dros unigolyn arall sydd â phrofiadau neu gefndir yn gyffredin
❖	Eiriolaeth dinasyddion – ble mae partneriaeth un i un hirdymor rhwng eiriolwr o ddinesydd gwirfoddol, sydd wedi'i hyfforddi neu a gefnogir, ac unigolyn
❖	Eiriolwr gwirfoddol annibynnol – ble mae eiriolwr annibynnol, di-dâl, sy'n gweithio am dymor byr neu oherwydd mater penodol, gydag un neu fwy o unigolion
❖	Eiriolaeth ffurfiol – gall gyfeirio at rôl eiriolaeth staff mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol neu leoliadau eraill, ble gofynnir i weithwyr proffesiynol, fel rhan o'u rôl, ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn a helpu i sicrhau ei fod yn cael ei drin yn y ffordd iawn
❖	Eiriolaeth annibynnol broffesiynol – ble mae partneriaeth un i un rhwng eiriolwr annibynnol proffesiynol, sydd wedi'i hyfforddi a'i dalu i ymgymryd â rôl eiriolwr, ac unigolyn. Gall hyn fod ar gyfer mater unigol neu amryfal faterion. Mae'n rhaid i eiriolwyr annibynnol proffesiynol sicrhau bod barn yr unigolyn yn cael ei gyfleu'n gywir beth bynnag yw barn yr eiriolwr neu bobl eraill ynghylch yr hyn sydd er y lles gorau i'r unigolyn.

Er nad yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 na'r Côt Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) yn nodi pa wasanaethau eirioli y mae'n rhaid eu darparu, noda pennod 15 o'r Côt bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i wasanaethau “*ar gyfer unigolion o bob oed*”. Noda

Pennod 15 hefyd y dylai gwasanaethau eirioli gael “*eu hariannu a’u rheoli yn y fath fodd ag i sicrhau bod hynny’n annibynnol ar y corff comisiynu*”.

Os bydd angen gwasanaethau eirioli ar unigolyn, mae’n rhaid i’r awdurdod lleol weithio mewn partneriaeth â’r unigolyn i weld a oes person priodol yn bodoli sy’n gallu darparu’r gwasanaethau sydd eu hangen. Noda pennod 13 y disgwylir i berson priodol “*gefnogi, cynrychioli a hyrwyddo cyfraniad yr unigolyn tuag at sicrhau canlyniadau eu llesiant*”.

Mewn llawer o achosion bydd yn briodol i aelod o’r teulu, ffrind neu rywun sydd yn rhwydwaith cefnogi ehangach yr unigolyn weithredu fel yr eiriolwr. Fodd bynnag, os nad oes person addas ar gael, mynega Pennod 10 y Côt bod yn rhaid i’r awdurdod lleol drefnu darparu eiriolwr annibynnol proffesiynol.

2.5 Pa bryd fydd hi’n anaddas i rywun fod yn eiriolwr?

Os bydd unigolyn yn dymuno dewis ei eiriolwr ei hun, er enghraifft, perthynas, athro, gofalwr neu ffrind, dylid ei helpu i ddeall y dewisiadau sy’n agored iddo a’i wneud yn ymwybodol o’r gwahanol fathau o wasanaethau eirioli sydd ar gael. Er hynny, dywed y Côt Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 13) **na** all eiriolwr fod yn rhywun:

- nad oes ar yr unigolyn ei hun ei eisiau;
- sy’n annhebygol o fedru cefnogi’r unigolyn yn ddigonol; neu
- sy’n gysylltiedig ag ymchwiliad o gam-drin neu esgeulustod mewn perthynas â’r unigolyn.

Os yw’r unigolyn yn mynegi nad yw’n dymuno i berson arbennig fod yn eiriolwr iddo, cyn belled â bod gan yr unigolyn alluedd, mae’n rhaid gwireddu ei ddymuniad.

Os yw’r unigolyn yn mynegi y buasai’n hoffi person arbennig i fod yn eiriolwr iddo, rhaid ystyried a yw’n gymwys i’r person hwnnw weithredu fel eiriolwr. Er enghraifft, person sy’n aelod o’r teulu ond nad yw’n gweld bod ar yr unigolyn angen gwasanaethau eirioli yn aml gan ei fod yn byw mewn gwahanol ran o’r wlad – efallai nad yw’r person hwn yn ddewis da oherwydd efallai na fydd yn gallu mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd.

Yn amlwg, os oes pryderon ynghylch diogelu o ran yr eiriolwr a gynigir, ni fydd yn ddewis priodol.

Os bydd eiriolaeth ffurfiol gan weithiwr proffesiynol sy’n gweithio gyda’r unigolyn yn ddewis, rhaid ystyried a fydd gan y gweithiwr proffesiynol unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â’r penderfyniad sy’n cael ei wneud. Os bydd unrhyw wrthdaro posibl yn bodoli, ni fydd yn gymwys i’r gweithiwr proffesiynol weithredu fel eiriolwr gan ei fod yn debygol o’i chael hi’n anodd hyrwyddo barn, dymuniadau a theimladau’r unigolyn.

2.6 Codi tâl am wasanaethau eirioli

Dywed Côt Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 10), os yr unig ffordd y gall unigolyn gyfranogi'n llwyr yn y broses gofal a chefnogaeth neu'r broses ddiogelu yw gyda chymorth unigolyn priodol, yna mae'n **rhaidd** i'r awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol yn rhad ac am ddim os nad oes unigolyn priodol ar gael. Felly, os oes ar berson angen eiriolwr annibynnol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth hwnnw heb godi tâl.

Nid yw'r un mor eglur pa un a yw person sydd angen ffurf arall ar wasanaeth eirioli er mwyn medru cyfranogi, hefyd â'r hawl i gael y gwasanaeth hwnnw yn rhad ac am ddim. Mae'r [Côt Ymarfer Rhan 4 a 5 \(Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol\)](#) (paragraff 5.12) yn ail-ddweud na all awdurdod lleol godi tâl am eiriolaeth annibynnol broffesiynol ond nid yw'n cyfeirio at godi tâl am unrhyw wasanaethau eirioli eraill. Fodd bynnag, dywed [Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Gosod Ffioedd\) Cymru 2015](#) (rheoliad 4(d)) na all awdurdod lleol godi tâl am *“wasanaethau eiriolaeth a ddarperir wrth gyflawni swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran 4 o'r Ddeddf”*. Gan fod Rhan 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ymdrin â chynllunio gofal a chefnogaeth, awgryma hyn bod yn rhaid darparu unrhyw wasanaeth eirioli a ddarperir mewn perthynas â'r agwedd hon o ofal a chefnogaeth yn rhad ac am ddim. Gan nad yw'r sefyllfa'n glir, os oes arnoch chi angen cael mynediad at ffurf arall ar wasanaeth eirioli a bod tâl yn cael ei godi am y gwasanaeth, efallai yr hoffech chi ofyn i'r awdurdod lleol egluro'r sail gyfreithiol am unrhyw dâl a godir.

2.7 Gwneud cwyn am wasanaethau eirioli

Nid yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r mathau o wasanaethau eirioli y mae'n rhaid eu darparu. Fodd bynnag, os na all yr anawsterau y mae unigolyn yn eu cael i gyfranogi o'r broses gofal a chefnogaeth gael eu goresgyn ond trwy ddarparu eiriolwr annibynnol proffesiynol yn unig, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw ar gael.

Os cyfyd anghytundeb ynghylch pa un a oes angen eiriolwr annibynnol proffesiynol, noda'r Côt Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 11) fod yn rhaid i'r awdurdod lleol wneud yr unigolyn yn ymwybodol o'u hawl i gwyno ynghylch gwrthod darparu eiriolwr annibynnol ac mae'n rhaid darparu cefnogaeth i roi cymorth i'r unigolyn fynd ar drywydd eu cwyn.

	Ysgrifennu llythyr i gwyno
Fel arfer, mae'n well gwneud unrhyw gŵyn yn ysgrifenedig, fel nad oes unrhyw ddryswch ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ddweud. Os oes arnoch chi angen ysgrifennu llythyr i gwyno, efallai y bydd yr awgrymiadau canlynol o fudd i chi: ❖ Dylai eich cyfeiriad gael ei roi ar ochr dde brig y dudalen. ❖ Dylai enw a chyfeiriad y person/mudiad yr ydych yn ysgrifennu ato gael ei roi gyferbyn â'ch manylion ac oddi tanynt. ❖ Os gwyddoch chi beth yw enw'r person rydych chi'n ysgrifennu ato, dylech chi ddefnyddio "Annwyl Mr/Mrs/Ms/Miss [Cyfenw]". Os nad ydych chi'n sicr o'r derbyniwr, fe ddylech chi ddefnyddio "Annwyl Syr/Madam" wrth gyfarch. ❖ Rhestru'r pwyntiau rydych chi am eu gwneud yn glir ac yn gryno ac eglurwch sut yr hoffech chi i'r gŵyn gael ei datrys. ❖ Os oes gennych chi dystiolaeth ddogfennol sy'n cefnogi eich cwyn, y mae'n aml yn ddefnyddiol i roi copïau gyda'ch llythyr. ❖ Os ydych chi'n meddwl bod y mudiad wedi methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu y mae wedi torri ei bolisiau a'i ddulliau gweithredu ei hun, fe ddylech egluro'r methiant yn eich llythyr. ❖ Defnyddiwch frawddegau llawn bob amser ac osgowch dalfyrru geiriau (e.e. defnyddiwch "yn y fan honno" yn hytrach nag "yn fan'no"). ❖ Ailwiriwch yr hyn rydych chi'n ei ysgrifennu bob amser a gwiriwch unrhyw gamgymeriadau. Fe allai fod o fudd i ofyn i rywun ddarllen eich llythyr i sicrhau ei fod yn glir. ❖ Os "Annwyl Mr/Mrs/Ms/Miss [Cyfenw] yw'r cyfarchiad a ddefnyddiwch, dylech ddiweddu gyda "Yr eiddoch yn gywir". Os ydych chi wedi defnyddio "Annwyl Syr/Madam", gallwch ddefnyddio'r un terfyniad yn Gymraeg, sef "Yr eiddoch yn gywir". ❖ Gorffennwch bob amser trwy lofnodi eich enw. Ceir rhai enghreifftiau o lythyrau cwyno mewn perthynas ag eiriolaeth yn Enghreifftiau o lythyrau cwyno.	

Os byddwch chi'n gwneud cwyn ac rydych chi'n anhapus â'r canlyniad, yna efallai y bydd hi'n bosibl gofyn am i'r mater gael ei arolygu gan [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru](#). Mae gan yr Ombwdsman rym i edrych i mewn i gŵyn ynghylch gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru a gall hefyd ymchwilio i gwynion bod awdurdodau lleol wedi torri eu côd ymddygiad. Mae Gwasanaeth yr Ombwdsman yn ddiduedd ac yn rhad ac am ddim.

2.8 Gwasanaethau eirioli ychwanegol ar gyfer plant sydd â hawl

Dan ran 181 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r angen cyffredinol i drefnu bod gwasanaethau eirioli ar gael i bobl sydd ag angen gofal a chefnogaeth yn berthnasol i blant ac oedolion. Felly, pan fydd gofal a chefnogaeth yn cael ei geisio mewn perthynas â phlentyn a bod gan y plentyn ddigon o ddealltwriaeth i fod â'r gallu i wneud penderfyniadau, dylid darparu gwybodaeth ar ei gyfer ynglŷn â'r gwasanaethau eirioli sydd ar gael a'i gefnogi i wneud dewis gwybodus ynglŷn â'i eiriolwr.

Noda rhan 178 o'r Ddeddf bod gan rai plant, yn bennaf y rhai y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt neu'n darparu llety ar eu cyfer, hawliau ychwanegol i gael gwasanaethau eirioli. Mae'r Côd Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 20) yn cyfeirio at blant sy'n gallu defnyddio'r hawliau ychwanegol hyn fel 'plant sydd â hawl'. Noda pennod 21 fod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu "*gwybodaeth a chynghor ar wasanaethau eirioli i blant â hawl yn rheolaidd, ynghyd â chymorth i ddod o hyd i eiriolwr*".

Noda pennod 21 hefyd bod yn "*rhaid i blant â hawl gael cyfle i gyfarfod ag eiriolwr a chytuno i'r trefniant cyn cadarnhau penodiad yr eiriolwr a chyn rhannu unrhyw wybodaeth ag e*". Os bydd y plentyn yn dewis cael eiriolwr llewg, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod yr eiriolwr yn cael cefnogaeth i gyflawni ei rôl. Fodd bynnag, os oes gan yr awdurdod lleol reswm da dros gredu bod yr eiriolwr arfaethedig yn gosod y plentyn mewn perygl o niwed sylweddol, mae'n rhaid i'r awdurdod gymryd camau i amddiffyn y plentyn a dod o hyd i eiriolwr priodol, sy'n dderbyniol gan y plentyn hefyd.

Gall plant sydd â hawl sy'n cael eu rhoi y tu allan i'w hardal neu rai sydd ag anawsterau cyfathrebu, fod yn eithriadol o hawdd eu niweidio. Noda pennod 21 fod yn rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y plant hyn yn deall ac yn ymwybodol o ddulliau gweithredu cwynion a chynrychiolaeth ac yn deall ac yn ymwybodol o'u hawl i gael gwasanaethau eirioli. Yn anad dim, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gytuno ar drefniadau â'r rhai sy'n darparu gofal o ddydd i ddydd ar gyfer y plentyn i sicrhau bod y plentyn yn gallu cael gafael ar eiriolwr.

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn (fel gweithwyr cymdeithasol a rhieni maeth) sicrhau bod y plentyn yn cael cefnogaeth i gael mynediad at wasanaethau eirioli os yw'r plentyn yn dymuno gwneud cwyn neu gynrychiolaeth arall ynghylch ei ofal. Os yw'r plentyn yn rhwym wrth gynllun gofal, dylai gael ei adolygu'n rheolaidd gan Swyddog Adolygu Annibynnol. Mae'n rhaid i'r Swyddog Adolygu Annibynnol weld a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hawl i gael eiriolaeth a darparu gwybodaeth ar wasanaethau eirioli.

Os yw'r plentyn sydd â hawl yn gwneud cwyn neu gynrychiolaeth arall ynghylch ei ofal, mae'n rhaid i swyddog cwynion yr awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn deall y gefnogaeth eirioli sydd ar gael i'r plentyn. Yn anad dim, noda pennod 21 y dylai'r swyddog cwynion:

- ymgynghori â'r plentyn pan fydd yn mynegi ei fod yn dymuno gwneud cwyn er mwyn ei helpu i ddeall y dewisiadau sydd ar gael a'r modd y mae'r dull gweithredu cwynion yn gweithio gan ddefnyddio deunyddiau sy'n briodol ar gyfer oedran;
- darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch gwasanaethau eirioli a chefnogi'r plentyn i gael mynediad at y gwasanaethau hynny;
- gweithio gyda'r plentyn a'i eiriolwr i ddelio â'r gŵyn a darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch datrysiad o fewn y dull gweithredu cwynion neu trwy ffyrdd gwahanol o wella ac unioni ble mae'n briodol; a
- cadw cofnod ysgrifenedig o'r cwynion a wnaed, y dull o weithredu a ddilyniar a'r canlyniad.

2.9 Gwasanaethau eirioli statudol eraill

Yn ogystal â'r gofynion dan Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n rhaid i wasanaethau eirioli gael eu darparu hefyd dan nifer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth. Golyga hyn y gall hawl unigolyn i wasanaethau eirioli mewn perthynas â'r broses o ofal a chefnogaeth orgyffwrdd â hawliau eraill, gan gynnwys:

- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael i gefnogi plant (neu eu ffrindiau achos) sy'n mynd ar drywydd datrys anghytundeb neu apeliadau at Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (rhan 332BB o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 6D Atodiad 17 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
- Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael i gefnogi unigolion sy'n dymuno gwneud cwyn ynghylch darpariaeth gwasanaeth iechyd (rhan 187 o Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006).
- Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol i helpu cleifion gorfodol ac anffurfiol (rhan 130E o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Dylai Eiriolwyr fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf.
- Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer eiriolwyr galluedd meddyliol annibynnol i gynrychioli a chefnogi unigolion sy'n ddiffygiol mewn galluedd i gydsynio i driniaeth feddygol neu sy'n rhwym wrth gais am awdurdodi amddifadu o ryddid (rhan 35 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005). Dylai eiriolwyr fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad perthnasol.

Mae'r rhannau hyn i gyd wedi'u geirio yn yr un modd gan eu bod yn egluro'r rhwymedigaethau sydd gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu eiriolwyr annibynnol. Os oes gan berson yr hawl i gael cefnogaeth gan fwy nag un gwasanaeth eirioli, mae'n debygol y bydd hi'n well ceisio cytuno ar un eiriolwr i ymdrin â'r holl faterion, gan y bydd hyn yn osgoi gorfod mynd dros yr un wybodaeth gyda gwahanol bobl.

RHAN 3 – ADNODDAU YCHWANEGOL

Mae'r gwefannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol (*Ctrl + clic i ddilyn pob cyswllt*):

Mudiad	Gwefan
Cymdeithas y Gyfraith (yn eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr yn eich ardal)	www.lawsociety.org.uk
Ombwdsman y Gwasanaethau Cyhoeddus (yn ymchwilio i gwynion ynghylch cyrff cyhoeddus yng Nghymru)	www.ombudsman-wales.org.uk/cy.aspx
Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ynghylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Codau Ymarfer)	https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/eiriolaeth

Mae'r mudiadau canlynol yn darparu gwasanaethau eirioli yng Nghymru, er y bydd arnoch chi angen cysylltu â phob mudiad i weld a ydynt yn codi tâl am y gwasanaethau a ddarperir (*Cntrl + clic i ddilyn pob cyswllt*):

Mudiad	Gwefan
Advocacy Matters Wales (elusen sy'n darparu eiriolaeth annibynnol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yng Nghaerdydd a'r Fro)	www.advocacymatterswales.co.uk/
Gwasanaethau Eirioli Gogledd Ddwyrain Cymru (eiriolaeth annibynnol i breswylwyr Sir y Fflint a Wrecsam)	www.flintshireadvocacy.co.uk/
Cefnogaeth Eiriolaeth Cymru (ASC) (gwasanaethau eirioli cymunedol ac arbenigol annibynnol)	www.ascymru.org.uk/cymraeg/
Age Cymru (gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru)	www.ageuk.org.uk/cymru/professional-resources/elder-abuse-resources/advocacy/
IMCA Wales (gwasanaethau eirioli galluedd meddyliol annibynnol yng Ngorllewin)	http://www.imcawales.org/

Cymru)	
Meic (gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifainc yng Nghymru, sy'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau eirioli ledled Cymru)	www.meiccymru.org/in-your-area/
Tros Gynnal Plant (cefnogaeth annibynnol a chyfrinachol i blant a phobl ifainc a'u teuluoedd, gan gynnwys eiriolaeth)	www.trosgynnal.org.uk/page.php?Plv=1&P1=2&P2=P3=&id=

Enghreifftiau o lythyrau cwyno

	<u>Enghraifft 1:</u> Cwyn ynghylch gwrthod penodi eiriolwr annibynnol proffesiynol
Mae Lucy (23 oed), merch Mrs James, yn cael ei hasesu ar gyfer gofal a chefnogaeth. Mae Mrs James yn credu bod ar Lucy angen eiriolwr annibynnol proffesiynol ond mae gweithiwr cymdeithasol Lucy yn meddwl bod eiriolaeth anffurfiol yn ddigonol i gefnogi Lucy. Dan yr amgylchiadau hyn gellid defnyddio'r llythyr cwyno canlynol.	
Rhif eich tŷ/fflat ac enw'r stryd Tref Sir Côd Post Eich rhif ffôn Enw'r person rydych chi'n ysgrifennu ato Rhif yr adeilad ac enw'r stryd Tref Sir Côd Post Dyddiad heddiw Annwyl Mr/Mrs/Ms/Miss [Cyfenw] (neu Annwyl Syr/Madam) Hoffwn i wneud cwyn ffurfiol ynghylch penderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod darparu eiriolwr annibynnol proffesiynol ar gyfer fy merch – Lucy James (23 oed). Mae anghenion gofal a chefnogaeth Lucy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd. Mae gan Lucy anabledd dysgu sy'n golygu ei bod hi'n ei chael hi'n anodd iawn i brosesu gwybodaeth; mae hi hefyd yn teimlo bod cymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda nifer fawr o bobl yn ei gwneud hi'n ofnus iawn. Darparodd Jayne Williams, y gweithiwr cymdeithasol a bennwyd ar ei chyfer, wybodaeth ynghylch y gwasanaethau eirioli sydd ar gael. Gofynnais am gael eiriolwr annibynnol proffesiynol wedi'i benodi ar gyfer Lucy gan fy mod i'n pryderu na all hi egluro pa ofal a chefnogaeth yr hoffai hi eu cael. Dywedodd Miss Williams ei bod yn credu mai'r dewis gorau ar gyfer Lucy yw i mi ddarparu eiriolaeth anffurfiol, gan fod Lucy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus pan ydw i'n bresennol. Rwyf yn anghytuno â'r penderfyniad hwn gan fy mod yn meddwl bod ar Lucy angen person annibynnol i siarad ar ei rhan. Rwyf yn ymwybodol bod y Côd Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 10) yn dweud, os na all person gyfrnogi'r llawn mewn asesiad, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu eiriolwr annibynnol proffesiynol os nad oes person arall cymwys ar gael i weithredu fel eiriolwr. Nid wyf yn credu bod gen i	

ddigon o wybodaeth o'r broses gofal a chefnogaeth i weithredu fel eiriolwr Lucy ac felly fe hoffwn i herio'r penderfyniad i beidio â phenodi eiriolwr annibynnol proffesiynol ar gyfer Lucy.

A wnewch chi gadarnhau derbyn y llythyr hwn, os gwelwch yn dda. Os oes arnoch chi angen cysylltu â mi i drafod fy nghwyn, yna mae fy nghyfeiriad a'm rhif ffôn cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Gan edrych ymlaen at glywed oddi wrthyh.

Yr eiddoch yn gywir,

Karen James

	<u>Enghraifft 2:</u> Cwyn ynghylch gwrthod gadael i aelod o'r teulu weithredu fel eiriolwr person
<i>Mae'n bryd i Amir (30 oed), mab Mr Khan, gael adolygu ei gynllun gofal a chefnogaeth. Mae gan Amir weithiwr cymdeithasol newydd, sy'n credu y dylai lefel y gefnogaeth y mae Amir yn ei gael, gael ei ostwng i annog Amir i fod yn fwy annibynnol. Mae Mr Khan wedi bod yn eiriolwr i Amir erioed ac wedi mynegi na ddylid cwtogi ar y gefnogaeth a ddarperir ar gyfer Amir. Mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi cyfeirio Amir at wasanaeth eirioli gwirfoddol lleol. Dymuna Mr Khan barhau i weithredu fel eiriolwr Amir. Dan yr amgylchiadau hyn, gellid defnyddio'r llythyr cwyno canlynol.</i>	
Rhif eich tŷ/fflat ac enw'r stryd Tref Sir Côt Post Eich rhif ffôn Enw'r person rydych chi'n ysgrifennu ato Rhif yr adeilad ac enw'r stryd Tref Sir Côt Post Annwyl Mr/Mrs/Ms/Miss [Cyfenw] (neu Annwyl Syr/Madam) Hoffwn i wneud cwyn ffurfiol ynghylch penderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod gadael i mi weithredu fel eiriolwr ar ran fy mab, Amir Khan (30 oed). Mae cynllun gofal a chefnogaeth Amir yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae ei weithiwr cymdeithasol (Karl Morgan) wedi dweud wrthyf ei fod yn credu y byddai'n well i Amir gael eiriolwr o'r tu allan i'r teulu ac felly mae Mr Morgan wedi ei atgyfeirio at y gwasanaeth eirioli gwirfoddol lleol. Rwyf yn anghytuno â'r penderfyniad hwn. Dywed Côt Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) (pennod 13) mai rôl yr eiriolwr yw “cynorthwyo ymgysylltiad a chyfranogiad llawn yr unigolyn wrth bennu ei ganlyniadau llesiant” ac y bydd yr eiriolwr yn aml yn aelod o'r teulu neu'n ffrind. Dan Bennod 13, bydd person yn cael ei rwystro rhag gweithredu fel eiriolwr dim ond os: • nad oes ar yr unigolyn sy'n cael ei gefnogi eisiau i'r person weithredu fel ei eiriolwr. • yw'r person yn annhebygol o fedru ymgymryd â rôl eiriolwr yn ddigonol neu o fod ar gael i wneud hynny. • yw'r person yn gysylltiedig ag ymchwiliad i gamdriniaeth neu esgeulustod mewn perthynas ag oedolyn neu blentyn. Nid oes yr un o'r gwaharddiadau hyn yn berthnasol i mi a chredaf mai'r hyn fyddai orau i Amir fyddai i mi weithredu fel ei eiriolwr gan fy mod yn deall ei anghenion yn llwyr ac mae Amir yn ei chael hi'n anodd siarad â rhywun nad yw'n ei adnabod. Felly, dymunaf gwyno am benderfyniad Mr Morgan i atgyfeirio Amir at y gwasanaeth eirioli gwirfoddol lleol.	

A wnewch chi gadarnhau derbyn y llythyr hwn, os gwelwch yn dda. Os oes arnoch chi angen cysylltu â mi i drafod fy nghwyn, yna mae fy nghyfeiriad a'm rhif ffôn cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Gan edrych ymlaen at glywed oddi wrthyh.

Yr eiddoch yn gywir,

Javed Khan

Am Ragor o Wybodaeth gallwch gysylltu â:

Mencap WISE ar 0808 8000 300 (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-5pm)

Neu e-bostio information.wales@mencap.org.uk

Diolchiadau:

Y myfyrwyr sydd wedi bod ynghlwm wrth lunio'r arweinlyfr hwn yw:

*Fersiwn 1 (Mawrth 2017) – Aurelian Bonnefous, Shelby Jones, Harriette Loveluck-Edwards
a Leah Roberts.*